

Adroddiad ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Rhagfyr 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Rhagfyr 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Mark Isherwood AS*
Ceidwadwyr Cymreig



Adam Price AS
Plaid Cymru

* Nid oedd Mark Isherwood AS yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
Cefndir deddfwriaethol	5
Diben y Bil	6
Crynodeb o'r darpariaethau allweddol yn y Bil	7
Cylch gorchwyl y Pwyllgor	8
2. Cymhwysedd deddfwriaethol	10
Y goblygiadau o ran hawliau dynol	10
Ein barn ni	12
3. Sylwadau cyffredinol	15
Datblygu'r Bil a'r angen amdano	15
Ymgynghoriad	19
Yr amserlen i'r Senedd graffu ar y Bil	23
Gweithredu'r Bil, os caiff ei ddeddfu	24
Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth	27
Ein barn ni	29
4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil.....	34
Rhan 2 (Datblygu Twristiaeth)	34
Rhan 3 (Rheoleiddio Llety Ymwelwyr)	34
Rhan 4 (Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr)	43
Rhan 5 (Amrywiol a Chyffredinol)	46
Ein barn ni	47

1. Cyflwyniad

Ar 3 Tachwedd 2025, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS ("yr Ysgrifennydd Cabinet"), y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)¹ ("y Bil"), a'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") sy'n cyd-fynd ag ef.²

1. Ar 5 Awst 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ("Pwyllgor yr Economi") i ystyried yr egwyddorion cyffredinol, ac adrodd arnynt.³
2. Ar 5 Tachwedd 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil (Datganiad o Fwriad Polisi).⁴

Cefndir deddfwriaethol

3. Yn ei maniffesto yn 2021, ymrwymodd y Blaid Lafur i:

*"Consult on legislation permitting local authorities to raise a tourism levy, ring fenced to support improving the visitor experience in Wales and to help the local economy."*⁵

4. Wedi hynny, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau yn ei Chytundeb Cydweithio 2021 gyda Phlaid Cymru.⁶ Adlewyrchwyd yr ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.⁷

¹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], 2025

² Llywodraeth Cymru, Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 3 Tachwedd 2025

³ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Hydref 2025

⁴ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), 5 Tachwedd 2025

⁵ Llafur Cymru, Moving Wales Forward (Saesneg yn unig), tudalen 54

⁶ Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio: 2021, tudalen 4

⁷ Llywodraeth Cymru, Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad, tudalen 7

5. Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru.⁸ Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi mai un o brif nodau cynllun trwyddedu statudol yw “sicrhau tegwch i bob darparwr llety ymwelwyr sy’n gweithredu yn y sector” ac i fynd i’r afael â “[ph]ryderon nad yw rhannau penodol o’r sector yn bodloni nac yn cydymffurfio â’u rhwymedigaethau statudol.”⁹

6. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i greu cofrestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Cafodd y cynigion hyn eu deddfu fel rhan o *Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025* (“y Ddeddf VARL”), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025.¹⁰

Diben y Bil

7. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi cyflwyniad y Bil, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai’r Bil yw “darn olaf mewn rhaglen o waith o’n Cytundeb Cydweithrediad gyda Phlaid Cymru sydd wedi’i anelu at ddiweddarau rheoleiddio gosodiadau tymor byr yn unol â’r ffordd y mae’r farchnad ar gyfer llety i ymwelwyr wedi newid”. Aeth ymlaen i ddweud:

“[Mae’r] Bil yn darparu’r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety i ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanarlwyo (...) Mae’r Bil hefyd yn creu Cod Cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori’r deddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda’r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth ym maes twristiaeth.”¹¹

8. Bwriedir i’r Bil, ynghyd â’r Ddeddf VARL, ffurfio rhan o God cyfraith newydd Cymru ar dwristiaeth. Mae’r Bil ei hun yn ymwneud yn bennaf â sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllun trwyddedu i lety ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunangynhwysol, hunanarlwyo. Diffinnir llety ymwelwyr o fewn cwmpas y gyfundrefn drwyddedu yn y Bil fel “llety ymwelwyr rheoleiddiedig”.

⁸ Llywodraeth Cymru, [Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru](#)

⁹ Llywodraeth Cymru, [Dogfen Ymgynghori: Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru](#), 16 Rhagfyr 2022, tudalen 10

¹⁰ Senedd Cymru, [Deddf Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\) 2025](#)

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno’r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr \(Cymru\)](#), 3 Tachwedd 2025

- 9.** Mae'r Bil hefyd yn ailddatgan (gyda mân welliannau a diweddariadau) pwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hyrwyddo a datblygu twristiaeth.
- 10.** Elfen allweddol o'r fframwaith trwyddedu arfaethedig yw'r gofyniad i ddarparwyr llety ymwelwyr ("DLIYau") sicrhau bod llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn "ffit i fod yn llety ymwelwyr". Mae'n gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i DLIYau gydymffurfio â safonau a gofynion hyfforddi perthnasol (i'w rhagnodi mewn rheoliadau yn y dyfodol). Mae'n gosod telerau mewn contractau ar gyfer cyflenwi llety i ymwelwyr o ran bod y llety hwnnw'n "ffit" i'w ddefnyddio yn y modd hwnnw.
- 11.** Mae'r Bil hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â hysbysebu unrhyw lety i ymwelwyr (adran 46), gyda chosbau troseddol am beidio â chydymffurfio (adran 47).
- 12.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*"Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf VARL"). O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol."*¹²

Crynodeb o'r darpariaethau allweddol yn y Bil

- 13.** Mae'r Bil yn cynnwys 60 o adrannau a dwy Atodlen. Mae wedi'i rannu'n bum rhan fel a ganlyn:
- Mae Rhan 1 (adran 1) yn rhoi trosolwg o'r Bil ac yn nodi y bydd yn rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth.
 - Mae Rhan 2 (adrannau 2 - 4) yn nodi pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hyrwyddo a datblygu twristiaeth.

¹² Memorandwm Esboniadol, tudalen 3

- Mae Rhan 3 (adrannau 5 - 44) yn ymwneud â rheoleiddio llety ymwelwyr hunangynhwysol, hunanarlwyo yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyflwyno cynllun trwyddedu. Mae'r cynigion yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru estyn y cynllun trwyddedu i fathau eraill o lety ymwelwyr yn y dyfodol:
 - Mae Pennod 1 (Cysyniadau Allweddol) yn cynnwys diffiniadau ac yn nodi'r safonau cyffredinol a phenodol y mae rhaid eu bodloni mewn cysylltiad â'r cynllun arfaethedig.
 - Mae Pennod 2 (Trwyddedu) yn cynnwys prif ddarpariaethau'r cynllun trwyddedu ei hun, gan gynnwys y broses gwneud cais, amodau'r drwydded, gorfodi, apeliadau a throseddau cysylltiedig.
 - Mae Pennod 3 (Llety Ymwelwyr Rheoleiddiedig: Telerau Contract) yn cynnwys y darpariaethau sy'n awgrymu telerau mewn contractau ar gyfer cyflenwi llety ymwelwyr o ran bod y llety hwnnw'n ffit i'w ddefnyddio yn y modd hwnnw.
- Mae Rhan 4 (adrannau 45 - 47) yn sefydlu cyfeiriadur o lety ymwelwyr yng Nghymru, ac yn nodi gofynion ar gyfer cynnwys gwybodaeth, gan gynnwys cofrestru (o dan y Ddeddf VARL) a thrwyddedu, mewn unrhyw farchnata neu hysbysebu llety ymwelwyr yng Nghymru.
- Mae Rhan 5 (adrannau 48 - 60) yn nodi darpariaethau amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â gweithrediad y Bil mewn achosion arbennig.
- Mae Atodlen 1 yn diwygio *Deddf Datblygu Twristiaeth 1969* i adlewyrchu pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a ailddatganwyd yn Rhan 2 o'r Bil ynghylch hyrwyddo a datblygu twristiaeth.
- Mae Atodlen 2 yn diwygio'r Ddeddf VARL a'r *Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* i ymgorffori darpariaethau sy'n ymwneud â'r cynllun trwyddedu arfaethedig a nodir yn Rhan 3 o'r Bil.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

14. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ("y Pwyllgor Deddfwriaeth") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion

allanol sydd o fewn neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

15. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, ein dull yw ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth.

16. Cawsom dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y Memorandwm ar 10 Tachwedd 2025.¹³ Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 12 Tachwedd 2025 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.¹⁴ Cawsom ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 25 Tachwedd 2025.¹⁵

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion

¹⁴ Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 12 Tachwedd 2025

¹⁵ Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹⁶

17. Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006").

18. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, datganodd y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.¹⁷

19. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet mewn tystiolaeth lafar ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹⁸

20. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Brenin neu Dywysog Cymru ar gyfer unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil. Yn ei ymateb, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen cydsyniad Dug Cernyw a'r Brenin oherwydd eu buddiannau eiddo. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn rhagweld y bydd y cydsyniadau hyn ar waith i ganiatáu i'r Bil symud ymlaen yng Nghyfnod 4.¹⁹

Y goblygiadau o ran hawliau dynol

21. Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn dod i'r casgliad bod materion o ran hawliau dynol wedi'u hystyried mewn perthynas â'r Bil, a'i fod yn fodlon bod darpariaethau yn y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn ôl y Memorandwm:

*"Mae darpariaethau'r Bil wedi'u hasesu'n ofalus, ac rydym yn fodlon eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried Erthygl 1 Protocol 1 (diogelu eiddo), Erthygl 6 (hawl i dreial teg) ac Erthygl 8 (hawl i barch am fywyd preifat a theuluol)."*²⁰

¹⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 1

¹⁷ Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol: Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), 3 Tachwedd 2025

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [12]

¹⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025.

²⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.11

22. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'r canlynol mewn perthynas ag Erthygl 1 Protocol 1 ("A1P1") o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n rhoi hawl i fwynhau eiddo'n heddychlon²¹:

*"Gellir cyfiawnhau ymyrryd â hawliau eiddo pan fydd hynny o fudd i'r cyhoedd. Mae sail resymol dros y darpariaethau yn y Bil ac maent yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng gofynion budd cyffredinol y gymuned a diogelu hawliau sylfaenol unigolyn. Bydd y gweithdrefnau hysbysu a chynrychioli a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i herio honiadau gan Weinidogion Cymru a/neu unioni ymddygiad cyn i drwydded gael ei ddirymu."*²²

23. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi rhybuddio am y potensial o anghydnawsedd ag A1P1.²³ Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar â Phwyllgor yr Economi, holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet sut y daeth i'r casgliad bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyrwyddo twristiaeth a thawelu meddyliau ymwelwyr ar y naill law, a rheoli eiddo preifat ar y llaw arall. Dywedodd:

*"... one of the first things a Minister has to be satisfied about in bringing forward a Bill is that it is compliant with human rights obligations, and I will have had a significant amount of advice on a range of articles that give me confidence that the Bill is compliant in that way."*²⁴

24. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet safbwyntiau tebyg mewn tystiolaeth inni, cyn ychwanegu ei fod yn falch o weld, yn llythyr y Llywydd, nad oedd hi ychwaith wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch cydnawsedd y Bil â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.²⁵

²¹ Mae Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf yn nodi: "Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law. The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties."

Ffynhonnell: [Legislation.gov.uk, Deddf Hawliau Dynol 1998, Atodlen 1 \(Saesneg yn unig\)](https://legislation.gov.uk/ukpga/1998/1/section/1)

²² Llywodraeth Cymru, [Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr \(Cymru\): asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb](#), 7 Tachwedd 2025, tudalennau 12-13

²³ Pwyllgor yr Economi, [Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 20 Cymdeithas Llety Tymor Byr \(Saesneg yn unig\)](#); Pwyllgor yr Economi, [Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 24 Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban a Chynghrair Twristiaeth yr Alban \(Saesneg yn unig\)](#)

²⁴ Pwyllgor yr Economi, [20 Tachwedd 2025](#), Cofnod y Trafodion [425]

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [14]

25. Gwnaethom ofyn yn benodol a oedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn fodlon bod y darpariaethau sy'n caniatáu hawliau mynediad i eiddo a nodir yn adran 30 yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet, gan ddweud:

"I am, because the powers of entry are not open-ended or unfettered. In the Bill, there are a series of tests that anybody seeking a power of entry will have to go through, and it is those tests that makes that power consistent with human rights. You would have to have a reasonable ground to begin with that an entry was necessary because a condition of a licence had been breached or the provider was providing false or misleading information. Even when you are satisfied that there are reasonable grounds, you then have to be satisfied in a second step that inspection—in other words, the need to gain entry—is the answer to those reasonable grounds. Then, if you reach a point where you do need to gain entry, you have to go to a magistrates' court in order to secure a warrant in order to be able to do that. So, there is a third test that you would have to pass."²⁶

Ein barn ni

26. Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol.

27. Cyhoeddwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar 7 Tachwedd, pedwar diwrnod gwaith ar ôl i'r Bil gael ei osod, a'r diwrnod gwaith cyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 10 Tachwedd. Roedd hyn yn golygu nad oedd gennym ddigon o amser i fyfrio arno cyn ein gwaith craffu ar yr Ysgrifennydd Cabinet. Mae hyn yn annerbyniol, ac fe gafodd ei effaith ei chwyddo o ystyried y cyfnod craffu byrrach ar gyfer y Bil cyfan.

Casgliad 1. Mae'n annerbyniol bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno gerbron y Senedd, a chydag amser annigonol cyn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Cabinet er mwyn iddo lywio ein cwestiynau.

28. Nid yw'r Memorandwm sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cyfeirio'n benodol at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nac yn darparu unrhyw fanylion am ei

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [16]

gasgliadau. Fel yr ydym wedi dod i'r casgliad mewn nifer o adroddiadau blaenorol,²⁷ ein dewis ers tro byd yw cynnwys asesiad o ymgysylltiad Bil â'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel mater o drefn yn y Memorandwm cysylltiedig. Dylai'r asesiad hwnnw hefyd nodi unrhyw gamau a gymerwyd i wneud yr ymgysylltiad hwnnw'n gymesur. Byddai gwneud hynny'n nodi'n gliriach sut y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod ystyriaeth o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Bil, yn enwedig mewn achosion fel hyn lle nad yw'r asesiad o effaith yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Memorandwm.

Casgliad 2. Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol ond credwn y dylai'r Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau o'r fath.

29. Nodwn y sylwadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cabinet am hawliau dynol a'r wybodaeth a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, er bod yr Asesiad yn darparu barn gyffredinol ynghylch i ba raddau y mae'r darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar hawliau dynol, nid yw'n cynnwys asesiad manwl sy'n nodi sut y daethpwyd i'r farn honno. Yn sgil y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil ynghylch AIP1 yn benodol, nid ydym yn ystyried bod digon o wybodaeth am effaith y Bil ar hawliau dynol wedi'i darparu i gefnogi Aelodau o'r Senedd yn eu hystyriaethau ynghylch a ddylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Argymhelliaid 1. Cyn y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn egluro sut y gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet asesu'r Bil fel un sy'n gydnaws ag Erthygl 1 o Brotocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylai'r datganiad hwnnw gynnwys rhesymeg yr Ysgrifennydd Cabinet dros ddod i'r casgliad:

- i. y gellir cyfiawnhau ymyrryd â hawliau eiddo pan fydd hynny o fudd i'r cyhoedd; a
- ii. bod sail resymol dros y darpariaethau yn y Bil a'u bod yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng gofynion budd cyffredinol y gymuned a diogelu hawliau sylfaenol unigolyn.

²⁷ Gweler, er enghraifft: casgliad 1 o'n Hadroddiad ar y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), casgliad 1 o'n Hadroddiad ar y Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru); casgliad 1 o'n Hadroddiad ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru); casgliad 1 o'n Hadroddiad ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru); ac ati

Argymhelliad 2. Cyn y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw wedi nodi unrhyw angen i ddiwygio'r casgliadau ar hawliau dynol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ganlyniad i dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod Cyfnod 1.

3. Sylwadau cyffredinol

Datblygu'r Bil a'r angen amdano

30. Mae'r Memorandwm yn nodi mai uchelgais Llywodraeth Cymru yw “cynyddu twristiaeth er budd Cymru mewn ffordd sy'n cefnogi cymunedau lleol ffyniannus ac sy'n gynaliadwy i'r amgylchedd a phobl Cymru.” Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw effeithiau twristiaeth wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled Cymru, a hyd yn oed o fewn awdurdodau lleol penodol:

“Mae eiddo sydd wedi'u rhestru ar Airbnb, er enghraifft, wedi'u crynhoi mewn ardaloedd mynyddig ac arfordirol ac mewn rhai awdurdodau lleol mae eiddo rhestredig wedi'u crynhoi mewn nifer bach o ardaloedd⁴. Gall y crynhoad hwn o lety gwyliau mewn cymunedau penodol ddod â manteision, megis y potensial i gynhyrchu incwm a chyflogaeth ychwanegol mewn diwydiannau cysylltiedig, yn ogystal ag achosi pryderon megis lleihau nifer y tai sydd ar gael, achosion o darfu sy'n ymwneud â pharcio, a chyfrannu at ysbwriel a llygredd, fel y nodwyd gan astudiaeth o agweddau at drwyddedu llety ymwelwyr yn 2023.”²⁸

31. Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i nodi nifer o bryderon ynghylch diffyg cyfundrefn drwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys:

- “adroddiadau anecdotaidd” o gydymffurfiaeth anghyson â safonau rheoleiddio ar draws y sector hunanarlwyo;
- bod arolwg yn 2023 a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi canfod bod “gweithredu'n ddiogel” yn cael ei ystyried yn bwysig i'r rhan fwyaf o bobl sy'n bwriadu mynd ar deithiau o fewn y DU. Yn yr arolwg hwnnw, dywedodd 83% y byddent yn fwy tebygol o archebu llety pe bai cynllun ar waith a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch; a
- bod “adroddiad ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Caerdydd [wedi dod] i'r casgliad, o ystyried y gallu cyfyngedig i awdurdodau lleol reoleiddio

²⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.16 – 3.18. Yr astudiaeth y cyfeirir ati yn y dyfyniad yw un Llywodraeth Cymru, Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr: barn defnyddwyr a phreswylwyr, 14 Rhagfyr 2023

llety gwyliau tymor byr a diffyg cyfundrefn reoleiddio canfyddedig, y dylid cyflwyno cynllun trwyddedu”.²⁹

32. Daw'r Memorandwm i'r casgliad a ganlyn:

“Gan nad oes cyfundrefn drwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr, mae risg sylweddol y bydd y sector llety gosod tymor byr yn parhau i ehangu mewn ffordd sy'n gwaethygu ystumiau'r farchnad a nodwyd eisoes, gyda rhai darparwyr llety, yn ddarwybod, yn methu â chyrraedd safonau rheoleiddio, sy'n golygu y gallant weithredu ar gost is na darparwyr sy'n deall y gyfundrefn reoleiddio bresennol ac yn buddsoddi mewn cydymffurfio â hi.”³⁰

Data

33. Mae'r Memorandwm yn cyfeirio at “brinder data dibynadwy sydd ar gael ar hyn o bryd” ynghylch nifer y llety hunanarlwyo sydd ar gael yng Nghymru ac yn dweud, “nid oes data ar gael ar nodweddion safleoedd na lefelau cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol presennol”.³¹ Mae nifer o randdeiliad wedi mynegi pryderon ynghylch cywirdeb a dibynadwyedd y data y mae casgliadau allweddol y Memorandwm yn seiliedig arnynt.³²

34. Mae rhai sefydliadau yn y sector wedi dadlau mewn tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi y dylid bod wedi gohirio datblygiad y Bil hyd nes bod y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a gyflwynwyd gan y Ddeddf VARL wedi'i gweithredu'n llawn. Maent yn honni y byddai'r gofrestr yn gwella ansawdd y data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru am y sector hunanarlwyo.³³ Dywedodd Undeb Amaethwyr

²⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.14 i 3.34

³⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.35

³¹ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7.8, 8.1 ac 8.71

³² Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 20 Cymdeithas Llety Tymor Byr; Pwyllgor yr Economi, [Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 32 - Booking.com \(Saesneg yn unig\)](#); Pwyllgor yr Economi, [Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 Awaze \(Saesneg yn unig\)](#); Pwyllgor yr Economi, [Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 16 Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU \(Saesneg yn unig\)](#); Pwyllgor yr Economi, [13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion](#) [273] (Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru)

³³ Gweler y dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi: DTRVA 32 Booking.com (Saesneg yn unig); [DTRVA 31 - Croeso Sir Benfro \(Saesneg yn unig\)](#); [DTRVA 12 Airbnb \(Saesneg yn unig\)](#); DTRVA 14 Awaze (Saesneg yn unig); [DTRVA 27 - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru \(Saesneg yn unig\)](#); [DTRVA 30 - Undeb Amaethwyr Cymru \(FUW\) \(Saesneg yn unig\)](#); DTRVA 32 Booking.com (Saesneg yn unig); DTRVA 16 Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU (Saesneg yn unig). Gweler hefyd: Pwyllgor yr Economi, [13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion](#) [201] (Cynghrair Twristiaeth Cymru); Pwyllgor yr Economi, [13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion](#) [411] (Cymdeithas Llety Tymor Byr); Pwyllgor yr Economi, [13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion](#) [412] (Cymdeithas Parciau Gwyliau a

Cymru fod y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Bil heb y gofrestr yn 'anghyfrifol'³⁴ a dadleuodd Booking.com y gallai arwain at ddyblygu, canlyniadau polisi anfwriadol ac, felly, bregusrwydd cyfreithiol.³⁵ Dywedodd Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU:

*"Deferring the Bill until registration has been completed, would allow a data-led Impact Assessment. This could then be based on actual numbers rather than at best, a calculated guess, backed up by a clearly demonstrated lack of understanding of the nuances of the sector."*³⁶

35. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd wedi ystyried gohirio'r ddeddfwriaeth tan ar ôl gweithredu'r gyfundrefn gofrestru. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried gwneud hynny, ond daeth i'r casgliad y byddai'n gohirio'r Bil am o leiaf dair blynedd arall, ac yn arwain at y cynllun trwyddedu ddim ar waith tan "mwy na degawd ar ôl i ni ymrwymo i'w gyflawni yn y Cytundeb Cydweithio." Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd na fydd y cynllun trwyddedu a nodir yn y Bil yn cael ei weithredu ar ôl i'r gofrestr genedlaethol fod ar waith, "gan ganiatáu i'r data hynny lywio a dylanwadu ar fanylion, gweithdrefnau a phrosesau gweithredol."³⁷

36. Yn sgil y pryderon ynghylch y data sy'n sail i'r Bil, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ba sail y daeth i'r casgliad bod angen y Bil. Atebodd y bu "twf sylweddol yn y math o lety 'gosod tymor byr' yn ystod y blynyddoedd diwethaf" a bod cyrff diwydiant wedi nodi "nad yw pob darparwr yn y farchnad osod tymor byr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau statudol, ac o ganlyniad maent yn gallu gweithredu ar gost is na'r rhai sy'n gwneud yr hyn sy'n ofynnol." Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn dod i'r casgliad a ganlyn:

"Mae'r achos dros y ddeddfwriaeth wedi'i nodi yn y memorandwm esboniadol, sy'n cynnwys cyfeiriadau at ymchwil awdurdodau lleol, dadansoddiad academiaidd, adroddiadau melinau trafod, dadansoddiad y diwydiant, ac adroddiad llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar batrymau newidiol o ran darparu llety ymwelwyr yn Lloegr, yn ogystal â'n gwaith ein

Chartrefi Prydain); Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [414] (Twristiaeth Gogledd Cymru)

³⁴ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 30 - Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) (Saesneg yn unig)

³⁵ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 32 - Booking.com (Saesneg yn unig)

³⁶ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 16 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU (Saesneg yn unig)

³⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025.

hunain, ac mae'r cyfan yn cyfrannu at y dystiolaeth bod angen y Bil hwn.

Mae cyfyngiadau'r dystiolaeth am gydymffurfio yn rhan o'r rheswm pam mae angen y Bil hwn ac nid yw prinder data penodol yn rheswm digonol i beidio â gweithredu ar y patrymau a'r effeithiau sy'n amlwg yn glir.”³⁸

Dysgu gan awdurdodaethau eraill

37. Gwnaed Gorchymyn Deddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982 (Trwyddedu Llety Gosod Tymor Byr) 2022 ar 27 Ionawr 2022 a daeth i rym ar 1 Mawrth 2022. Mae'r cynllun trwyddedu yn berthnasol i'r Alban gyfan ac yn cael ei weithredu gan awdurdodau lleol unigol, sy'n gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu. Ers 1 Hydref 2022, rhaid i weithredwyr llety gosod tymor byr gael trwydded cyn y gallant dderbyn archebion neu dderbyn gwesteion.

38. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cydnabu Airbnb rai agweddau dylunio cadarnhaol ar y cynllun arfaethedig yn y Bil sy'n adlewyrchu gwersi a ddysgwyd o gamgymeriadau yn yr Alban, megis un gyfres genedlaethol o reolau.³⁹

39. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet i ba raddau y mae datblygiad y Bil hwn wedi'i lywio gan gynllun trwyddedu'r Alban ar gyfer rhentu tymor byr. Tynnodd sylw at ddwy enghraifft benodol o ble mae'r Bil yn gwyro oddi wrth ddull yr Alban:

- mae'r cynllun yn y Bil yn genedlaethol, tra yn yr Alban mae pob awdurdod lleol yn awdurdod trwyddedu yn ei rinwedd ei hun; a
- bydd y cynllun yn y Bil yn cael ei weinyddu ar lefel genedlaethol, tra yn yr Alban caiff y cynllun ei weinyddu ar lefel leol.⁴⁰

40. Mewn sesiwn dystiolaeth gyda Phwyllgor yr Economi, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw hefyd at yr hyn a ddysgwyd o'r gyfundrefn drwyddedu sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon. Eglurodd, yng Ngogledd Iwerddon, fod rhaid i bob mangre gael archwiliad ffisegol:

“That is resource intensive, and it means that the process is a long one. The Northern Ireland Executive are consulting at the moment on a move away from that regime to what they refer

³⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

³⁹ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA.12 - Airbnb (Saesneg yn unig)

⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [29]

to as a sort of intelligence-led form of operation, and our Bill is much closer to that.”⁴¹

41. Daeth yr Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad y cred eu bod wedi gallu elwa o brofiad pobl eraill a dylunio'r cynllun mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain.⁴²

Ymgynghoriad

42. Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda Phwyllgor yr Economi, dadleuodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r ymgynghoriad mwyaf ar unrhyw eitem yn rhaglen y llywodraeth oedd y maniffesto y safodd y Llywodraeth arno mewn etholiad. A dywed fod y cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu ym maniffesto ei blaid.⁴³ Ailadroddodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym wedi hynny fod tarddiad y Bil yn rhan o faniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer etholiad cyffredinol Cymru yn 2021:

“There was a specific commitment in the manifesto to create a licensing scheme for tourism in Wales. That was confirmed in the programme for government, and it was further confirmed because it was one of the 47 items in the co-operation agreement between the Government and Plaid Cymru. So, the genesis of the Bill is long-standing and confirmed at successive points during this Senedd term. The Bill has been consulted upon in one way or another in every single year of this Senedd term. There has been a long series of opportunities, particularly with the industry itself, to make sure that the Welsh Government was made aware of people's views and to adapt to the proposals—to take account of those.”⁴⁴

43. Mae'r Memorandwm yn nodi bod gwaith archwiliadol ar gyfer cynllun trwyddedu wedi'i wneud gan Strategic Research and Insight Ltd. rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021. Daeth ei waith i'r casgliad bod angen cyfundrefn drwyddedu a bod rhanddeiliaid o blaid cynllun statudol. Ni ddaeth yr ymgynghorwyr i gasgliadau terfynol ynghylch sut y dylai'r cynllun edrych, ond fe wnaethant nodi cyfres o egwyddorion y gallai cynllun addas weithredu yn ôl y rhain.⁴⁵

⁴¹ Pwyllgor yr Economi, Cofnod y Trafodion 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [25] i [27]

⁴² Pwyllgor yr Economi, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [25] i [27]

⁴³ Pwyllgor yr Economi, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [15]

⁴⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [19] a [20]

⁴⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.4

44. Ymgynghorwyd ar yr egwyddorion hyn rhwng 16 Rhagfyr 2022 a 17 Mawrth 2023, fel y nodir ym mharagraff 5 o'r adroddiad hwn. Daeth cyfanswm o 1,595 o ymatebion i law yn sgil yr ymgynghoriad. Nodir yn y Memorandwm:

*"Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyson rhwng grwpiau demograffig. Roedd sefydliadau twristiaeth ac awdurdodau lleol mawr yn fwy tebygol o gytuno â'r cynigion tra mai darparwyr llety a thrigolion oedd yn anghytuno â nhw amlaf."*⁴⁶

45. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau o'r digwyddiadau rhanddeiliaid, ym mis Gorffennaf 2023.⁴⁷

46. Mae'r Memorandwm yn nodi ffynonellau ymgynghori ychwanegol a gynhaliwyd yn dilyn y ffenestr ymgynghori sylfaenol a nodwyd uchod:

- Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol, trefnwyd tri digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb ychwanegol a gynhaliwyd ym mis Mai 2023. Mae'r Memorandwm yn nodi bod 58 o randdeiliaid wedi mynychu, yn cynrychioli "nifer sylweddol o fusnesau twristiaeth yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth drawstoriadol o sectorau yn y diwydiant twristiaeth ledled Cymru."
- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg wedi'i dargedu at ymwelwyr a thrigolion a gynhaliwyd rhwng 1 a 7 Medi 2023.
- Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil VARL, a gynhaliwyd rhwng 29 Tachwedd 2024 a 10 Ionawr 2025.⁴⁸

47. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at ddau faes polisi sydd wedi newid ers maniffesto 2021:

- Yn wreiddiol, bwriad Llywodraeth Cymru oedd cael cynllun trwyddedu ar gyfer twristiaeth gyfan yng Nghymru. Mae'r Bil yn darparu cyfundrefn ar gyfer trwyddedu llety hunangynhwysol a osodir am gyfnod byr, ac yn darparu porth i ychwanegu agweddau pellach ar y diwydiant twristiaeth at y gyfundrefn honno yn y dyfodol.

⁴⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.8

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

⁴⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 4.10 i 4.20

- Yn wreiddiol, bwriad Llywodraeth Cymru oedd cynnwys safonau ansawdd yn y Bil. Nid yw'r Bil yn gwneud hynny, ond mae'n agor y ffordd i wneud hynny yn y dyfodol.⁴⁹

48. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm yn cadarnhau nad oes unrhyw ymgynghoriad ffurfiol wedi bod ar ddrafft o'r Bil.⁵⁰ Yn ystod ei sesiwn tystiolaeth lafar gyda Phwyllgor yr Economi, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"There are two reasons why I think we've ended up without a draft Bill in this instance (...) this is a Bill that comes right at the end of this parliamentary term. That's inevitable. Governments have programmes for government, you have to phase them over the whole of the time available to you, and where this Bill comes in the timetable means that it's simply not feasible to have a draft Bill (...) the second reason why the case for a draft Bill is less compelling in this case, as well as the timetabling issues, is that the issues have been so very well rehearsed over a five-year period."*⁵¹

49. Mae rhai rhanddeiliaid, fel UKHospitality Wales, Cynghrair Twristiaeth Cymru, Croeso Sir Benfro a Chymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU wedi mynegi pryderon ynghylch faint o amser a roddir i randdeiliaid i gyfrannu at ddatblygiad y Bil.⁵² Dadleuodd yr olaf fod y Bil yn cael ei ruthro drwodd ar ddiwedd tymor y Senedd mewn brys mawr sy'n tanseilio cwrpas ac amcanion y cynllun.⁵³

50. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth gyda Phwyllgor yr Economi, gwrthododd yr Ysgrifennydd Cabinet y ddatl bod y ddeddfwriaeth wedi'i rhuthro. Cyfeiriodd eto at y ddeddfwriaeth yn cael ei nodweddu ym manifesto'r blaid, a'i nodi yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

"I simply do not accept the argument that this is in any way rushed. There are always things that you have to concede when the guillotine comes down on a Bill. I think I've taken Bills in double figures now through the Senedd, and there's never been

⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [21] a[22]

⁵⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.1

⁵¹ Pwyllgor yr Economi, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [21] a[22]

⁵² Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [206] (UKHospitality Wales); Gweler y dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi: DTRVA 14 Awaze (Saesneg yn unig); DTRVA 32 Booking.com (Saesneg yn unig); DTRVA 31 - Croeso Sir Benfro (Saesneg yn unig); DTRVA 16 Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU (Saesneg yn unig)

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 16 Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU

a Bill in which there wasn't something you would have liked to have worked on further than that."⁵⁴

51. Ychwanegodd yn ddiweddarach fod y sector wedi bod â'r farn ers tro y byddent yn hoffi i bethau gael eu gwneud yn arafach. Yn ei farn ef, mae hynny'n aml yn guddwisg dros y ffaith nad yw wir yn hoffi'r ddeddfwriaeth o gwbl.⁵⁵

52. Mae nifer o randdeiliaid wedi tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng ymgynghori cyffredinol ynghylch materion polisi ac ystyried y Bil ei hun. Nododd Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru:

*"... we've had consultation in the past about registration, the levy and licensing, but now we've got the actual Bill in front of us, we've had fewer than three weeks to look at it, and there is a lot that's missing."*⁵⁶

53. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU fod yr ymgynghoriad parhaus a amlygwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn ymwneud â chysyniad, tra bod hwn mewn gwirionedd yn ymgynghoriad ynghylch y Bil a chynnwys y Bil ei hun.⁵⁷ Yn y cyfamser, tynnodd Twristiaeth Canolbarth Cymru sylw at y risg o ganlyniadau anfwriadol oherwydd y cymhlethdodau sy'n dechrau cael eu gweld yn y Bil, a dywed nad yw wedi cael ei ymgynghori ar hynny.⁵⁸

54. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau pa gyfle, os o gwbl, y mae rhanddeiliaid wedi'i gael i wneud sylwadau ar ddarpariaethau penodol y Bil. Ymatebodd fel a ganlyn:

"Mae swyddogion wedi trafod agweddau allweddol ar y Bil gyda rhanddeiliaid a chyrff y diwydiant mewn gwahanol ffyrdd yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno, gan gynnwys cyfarfod â'r Fforwm Economi Ymwelwyr, cynnal sesiynau ymgysylltu mewn cyfarfodydd Fforymau Twristiaeth Rhanbarthol, a chynnal amrywiol gyfarfodydd ar wahân gyda chynrychiolwyr y diwydiant. Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at y gwaith ymgysylltu rheolaidd parhaus â'r sector gan swyddogion a Gweinidogion.

⁵⁴ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [406]

⁵⁵ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [409]

⁵⁶ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [24]

⁵⁷ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [212]

⁵⁸ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [213]

Mae gwaith craffu Cyfnod 1 yn gyfle pellach i randdeiliaid rannu eu barn.⁵⁹

Yr amserlen i'r Senedd graffu ar y Bil

55. Ysgrifennodd y Llywydd, yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Busnes y Senedd, at Bwyllgor yr Economi ar 16 Gorffennaf i ofyn am farn y Pwyllgor ar amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer craffu ar y Bil. Nododd y llythyr, o dan yr amserlen arfaethedig, y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno ar 20 Hydref 2025 ac y byddai'r dyddiad cau ar gyfer adrodd Cyfnod 1 ar 19 Rhagfyr. Byddai hyn yn cynrychioli saith wythnos fusnes, sy'n sylweddol llai na'r 12 wythnos fusnes a ddarperir fel arfer i bwyllgorau ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.⁶⁰ Cyflwynwyd y Bil yn y pen draw ar 3 Tachwedd gyda'r un dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 19 Rhagfyr, gan ganiatáu chwe wythnos fusnes i bwyllgorau gynnal gwaith craffu Cyfnod 1.

56. Nododd Cadeirydd Pwyllgor yr Economi bryderon y Pwyllgor ynghylch yr amserlen arfaethedig mewn dau lythyr mewn ymateb i'r Llywydd. Daeth y Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

"Rwy'n teimlo o hyd bod yr amserlenni arfaethedig yn rhy fyr ar gyfer gwaith craffu o'r ansawdd y byddwn yn ei ddisgwyl gan unrhyw un o Bwyllgorau'r Senedd. Mae gwaith craffu o safon uchel yn rhan hanfodol o'r broses ddeddfu, ac yn arwain at ddeddfwriaeth well...

I'r Pwyllgor gadw at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad a gynigir yn y llythyr, amcangyfrifaf na fyddai ganddo ond tair wythnos i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rhan allweddol o rôl y Pwyllgor o ran craffu deddfwriaethol yw casglu barn a safbwyntiau partïon â chanddynt fuddiant ac adlewyrchu'r rhain yn yr adroddiad Cyfnod 1. Ni fydd tair wythnos yn rhoi amser digonol i randdeiliaid ystyried y Bil a chyflwyno ymateb llawn o ansawdd uchel, yn enwedig os ydynt yn sefydliadau cynrychioliadol ac mae angen iddynt ymgynghori â'u haelodau."⁶¹

⁵⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025.

⁶⁰ Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Busnes at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Gorffennaf 2025

⁶¹ Llythyr oddi wrth Bwyllgor yr Economi at y Pwyllgor Busnes, 10 Medi 2025. Ar gyfer y llythyr cyntaf, gweler: Llythyr oddi wrth Bwyllgor yr Economi at y Pwyllgor Busnes, 24 Gorffennaf 2025

57. Mae amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol, fel y Gymdeithas Llety Tymor Byr, y Ffederasiwn Busnesau Bach, a Booking.com, hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch effaith cyfnod craffu byrrach y Senedd.⁶² Ysgrifennodd Airbnb:

“We are strongly concerned about the accelerated timeline for passage of the bill, and the far more limited period for parliamentary scrutiny that it has been allocated compared to equivalent legislation ... This current [Stage 1 consultation] exercise opened on 3rd November, with a submission deadline of 17th November giving just 15 days to reply on proposals that are far more consequential than the earlier legislation. ... The impact on scrutiny is more important given that Welsh Government officials appear to be relying on the Senedd to address some of the open questions and the uncertainties and unresolved issues stemming from loose drafting of the bill. One example of this is that when we raised serious issues about the feasibility and practicality of the WRA’s suggestions around how platforms might confirm the validity of registration numbers, we were simply told that we should ‘take it to the Senedd’.”⁶³

Gweithredu’r Bil, os caiff ei ddeddfu

58. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer darpariaethau’r Bil yn nodi y bydd y costau sy’n deillio o’r cyfnod pontio ar gyfer sefydlu’r cynllun trwyddedu llety ymwelwyr yn cael eu hysgwyddo yn ystod 2026-27 i 2027-28. O 2029-30 ymlaen, mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu y bydd y cynllun trwyddedu yn hunangyllidol. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ysgrifenedig fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r gofrestr genedlaethol fod mewn grym yn 2027.⁶⁴

59. Mae’r Memorandwm yn nodi bod “cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu o hyd”. Un mater allweddol sy’n ymwneud â gweithredu’r Bil yw pa gorff fydd yn gyfrifol am brosesu ceisiadau a wneir gan ddarparwyr llety. Nid yw’r corff cyfrifol wedi’i enwi ar wyneb y Bil, ond mae’r Memorandwm yn nodi bod y Bil yn

⁶² Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 20 Cymdeithas Llety Tymor Byr (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 01 - Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 32 - Booking.com (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [24] (Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 12 - Airbnb (Saesneg yn unig)

⁶³ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 12 Airbnb (Saesneg yn unig)

⁶⁴ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

caniatáu i Lywodraeth Cymru weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i brosesu ceisiadau drwy lwyfan ar-lein. Mae hyn wedi cael croeso gan rai rhanddeiliaid, gan gynnwys Awaze, a awgrymodd y byddai gweinyddiaeth Awdurdod Cyllid Cymru o'r cynllun yn lleddfu'r broses o weithredu ar gyfer llwyfannau a gweithredwyr.⁶⁵

60. Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar gyda Phwyllgor yr Economi, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"I've taken the same approach in this Bill as we did in the visitor levy Bill. When the Bill was introduced, we didn't identify on the face of the Bill that it would be the WRA that would be responsible for the creation and the maintenance of the register. I think I've given as clear an indication as I can to the committee today that, although we don't name the WRA on the face of this Bill, my expectation is that the WRA will be the licensing authority as well. I don't want people to have to deal with two different organisations when they've got used to dealing with one, because, by the time this Bill is in operation, people will have already completed their registration with the WRA, they'll have some form of relationship with that organisation already, and I want this to be as easy and as seamless for the operator as I can."*⁶⁶

61. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd Llywodraeth Cymru yn hyderus bod ganddi olwg bellgyrhaeddol ar sut mae'r broses weithredu yn mynd rhagddi. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod gan Lywodraeth Cymru safbwynt pellgyrhaeddol o sut y bydd y broses weithredu yn gweithio mewn perthynas â llety hunangynhwysol, hunanarlwyo, a osodir am gyfnod byr. Ailadroddodd y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi'r mwyafrif helaeth o drwyddedau o dan y Bil.

62. Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, trafododd yr Ysgrifennydd Cabinet y corff a fyddai'n gyfrifol am gynnal ymweliadau ffisegol â mangreodded yn y lleiafrif o achosion lle mae hynny'n angenrheidiol. Dywedodd:

"... there are two choices, it seems to me. Local authorities I will probably put in the lead at the moment, but Visit Wales is also

⁶⁵ Pwyllgor yr Economi,, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 - Awaze (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 01 - Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [465] (Cymdeithas Llety Tymor Byr)

⁶⁶ Pwyllgor yr Economi,, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [162]

a possibility as well, because there's an organisation that is also used to being out on the ground, making physical visits to properties, dealing directly with people who provide accommodation. So, it's not inevitable at this point that it would be the local authority that we would look to, but I think it is more likely."⁶⁷

63. Wedi hynny, gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad oedd y corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun trwyddedu wedi'i egluro cyn cyflwyno'r Bil, a pham nad yw hyn wedi'i gynnwys yn fanylach ar wyneb y Bil.⁶⁸ Yn ei ymateb, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r cynllun trwyddedu. Dadleuodd y byddai peidio â nodi'r corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun yn darparu hyblygrwydd i wneud y trefniadau mwyaf effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r ddeddfwriaeth honno yn ymarferol, a manteisio ar synergeddau, fel gyda chofrestru a'r ardoll.⁶⁹

64. Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, ac mae disgwyl y bydd y broses adolygu ffurfiol yn dechrau pan fydd y cynllun wedi bod ar waith ers blwyddyn.⁷⁰ Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Ffederasiwn y Busnesau Bach o'r farn, o ystyried y broses graffu fyrrach, efallai y byddai'n ddoeth sicrhau bod pwyntiau cyswllt cynharach i'w gwirio cyn ac yn ystod y gweithrediad cynnar, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau anfwriadol sylweddol.⁷¹

65. Gwnaethom holi'r Ysgrifennydd Cabinet pam mae wedi dewis peidio â chynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad ôl-weithredu. Ailadroddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu, fel y nodir yn y Memorandwm. Mae ei lythyr yn egluro y bydd yr awdurdod trwyddedu a'r cynllun yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, sydd "eisoës yn destun holl lwybrau arferol craffu'r Senedd." Mae'n dod i'r casgliad a ganlyn:

"Byddwn hefyd am i delerau ac amseru unrhyw adolygiad gael eu pennu gan yr hyn a allai wella orau'r gwasanaeth a

⁶⁷ Pwyllgor yr Economi, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [98]

⁶⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [26]

⁶⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

⁷⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.2

⁷¹ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 01 - Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (Saesneg yn unig)

gynigiwn i ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr, a'r fframwaith deddfwriaethol i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, yn hytrach na dyddiad cau mympwyol.”⁷²

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

66. Mae'r Bil yn cynnwys 20 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ac un pŵer i wneud gorchmynion cychwyn. O'r 20 o bwerau ar gyfer gwneud rheoliadau:

- Mae 10 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd;
- Mae naw yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd; ac
- Mae un yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd lle caiff ei defnyddio i ddiwygio, addasu neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol, ond fel arall mae'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

67. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer (adran 3) a chanllawiau statudol (adran 55). Ni chynigir y bydd y rhain yn destun gweithdrefn y Senedd.

68. Mae 12 o bwerau penodol a gynigir yn y Bil a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (pwerau “Harri'r Wythfed”). Mae dau o'r pwerau hynny a gynigir yn y Bil yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd. Mae'r rhai eraill yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

69. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Datganiad o Fwriad Polisi sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau dirprwyedig yn y Bil. Anfonwyd copi o'r datganiad at y Pwyllgor drwy lythyr ar 5 Tachwedd 2025.⁷³

70. Mae sawl rhanddeiliad wedi mynegi pryderon ynghylch nifer a chwmpas y pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil, gan gynnwys Booking.com, a nododd fod gor-ddibyniaeth ar reoliadau diweddarach eisoes wedi creu ansicrwydd i ddarparwyr.⁷⁴ Dadleuodd rhai fod nifer y pwerau dirprwyedig o ganlyniad

⁷² Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

⁷³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Tachwedd 2025

⁷⁴ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 12 - Airbnb (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 - Awaze (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 32 - Booking.com (Saesneg yn unig)

uniongyrchol i'r ffaith nad oedd digon o amser wedi'i dreulio ar ddatblygu'r Bil.⁷⁵
Dywedodd Travel Chapter:

*"We have not had sufficient time (in the 14 days since the Explanatory Memorandum and Impact Assessment were published) to assess the many delegated powers of the Bill. However, we are concerned about the level and degree of discretion left to Ministers under the Bill. That avoids the necessary scrutiny/consultation to ensure the scope is tightly focussed on Health and Safety and we fear is just because of the desire to rush the primary legislation through before the next election."*⁷⁶

71. Er gwaethaf pryderon rhai rhanddeiliaid, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad rhedeg allan o amser oedd y rheswm pam y cafodd y Bil ei greu yn y ffordd a gafodd ei greu.⁷⁷

72. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn fodlon bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a ddarperir ar ei gyfer mewn pwerau dirprwyedig. Ymatebodd gan ddweud:

*"... I believe the Bill does strike that right balance, certainly on introduction. I'd be surprised if, by the time the Bill reaches Stage 4, that balance is identical to the balance that is set out at this point. I will be listening carefully to what this committee and others say about the balance between things that are on the face of the Bill and in regulations"*⁷⁸

73. Honnodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"... the Bill prevents any Minister from extending the scope of the Bill in future without the express approval of the Senedd. The Bill allows Ministers to set up a licensing scheme for self-contained and short-term lets, but the Bill doesn't allow the Minister to go beyond that at all without the express approval of the Senedd. So, it's in the Senedd's hands, not in Ministers'

⁷⁵ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 15 - Sykes Holiday Cottages (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 16 Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 18 - Travel Chapter (Saesneg yn unig)

⁷⁶ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 18 - Travel Chapter (Saesneg yn unig)

⁷⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [49]

⁷⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [32]

hands, as to whether or not any further sectors are brought within the ambit of a licensing regime in Wales.”⁷⁹

74. Nododd hefyd fod twristiaeth yn ddiwydiant sy’n newid yn gyflym, ac y byddai rhoi manylion ar wyneb y Bil yn cyfyngu ar y diwydiant. Aeth ymlaen i ddweud:

“Sometimes there’ve been choices between the two aspects you’ve suggested where my view was I’d resolve them in favour of what I think works for the industry, rather than the clarity that I know the Senedd would sometimes like to see in having things spelt out on the face of the Bill.”⁸⁰

75. Gwnaethom ofyn i’r Ysgrifennydd Cabinet roi unrhyw enghreifftiau inni o ddarpariaethau penodol yn y Bil sydd naill ai’n adlewyrchu ceisiadau gan y diwydiant twristiaeth i adael y manylion i’r rheoliadau yn hytrach na’u rhoi ar wyneb y Bil, neu sy’n cefnogi ei gred mai hwn yw’r dull fyddai orau ganddo. Mewn ymateb, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet dair enghraifft benodol: adnewyddu trwyddedau, gofynion hyfforddi a thrwyddedau dros dro. Yn ôl y llythyr:

“... cododd y sector bwyntiau yn ystod ei drafodaethau â swyddogion, yn enwedig mewn perthynas â pharhad busnes a lleihau biwrocratiaeth. Mae’r safbwyntiau hyn wedi dylanwadu ar y penderfyniad i gymryd pwerau i weithio gyda’r sector yn fanwl i ddatblygu prosesau gweithredol a gwneud rheoliadau i’w cynnig i’r Senedd. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda’r sector, manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg yn y dyfodol a chyflawni ein dymuniad i gadw pethau mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl.”⁸¹

Ein barn ni

Datblygu’r Bil, ac ymgynghori arno

76. Mae sylfaen dystiolaeth ddibynadwy a chywir sy’n sail i’r angen am ddeddfwriaeth yn elfen bwysig o ddeddfu o ansawdd uchel ac effeithiol. Yn ôl cyfaddefiad yr Ysgrifennydd Cabinet ei hun fel y nodir yn y Memorandwm, mae diffyg clir o ddata am nifer y lletyau hunanarlwyo sydd ar gael yng Nghymru, a

⁷⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [35]

⁸⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [33]

⁸¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

nodweddion ac ansawdd y lletyau hynny. Felly, rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch y bylchau yn y data sy'n sail i'r Bil.

Casgliad 3. Fel mater o egwyddor, dylai deddfwriaeth gael ei hategu gan ddata dibynadwy a chywir er mwyn sicrhau ei bod yn angenrheidiol a'i bod yn gallu cyflawni ei hamcanion polisi. Nid yw'r data sy'n sail i'r Bil yn bodloni'r trothwy ansawdd hwn.

77. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi dadlau bod maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiad 2021 yn elfen allweddol o'r ymgynghoriad ar y darpariaethau yn y Bil. Yn seiliedig ar ddarlleniad o ddogfen y maniffesto, nid yw'n glir inni sut mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyrraedd y farn honno.

78. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod y Bil yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfundrefn drwyddedu ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Mae wedi nodi bod yr ymrwymiad i gyflwyno cyfundrefn drwyddedu wedi'i nodi'n glir yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu.

79. Fodd bynnag, mae ymrwymiad gwleidyddol a wneir mewn dogfen maniffesto ac ymgynghoriad ar gynigion polisi a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yn wahanol iawn i ystyried sut mae polisi'n cael ei drosi'n ddeddfwriaeth, a'i roi ar waith ganddi.

80. Felly, rydym yn pryderu ynghylch y graddau y mae rhanddeiliaid allweddol wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes ganddynt ddigon o amser i ystyried y darpariaethau yn y Bil. Gallent fod wedi cael y cyfle hwnnw pe bai Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi drafft o'r Bil i ymgynghori arno. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi dadlau nad oedd yn bosibl gwneud hynny oherwydd yr adeg yn y tymor seneddol y cyflwynwyd y Bil. Byddem yn dadlau'r gwrthwyneb; mae'r adeg y cyflwynwyd y Bil wedi rhoi digon o amser i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ddarpariaethau drafft yn ystod y Chweched Senedd.

Casgliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi ymgynghori ar ddrafft o'r Bil i roi mwy o gyfle i randdeiliaid a phwyllgorau'r Senedd ystyried manylion darpariaethau'r Bil. O ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud yr ymrwymadau i gyflwyno cyfundrefn drwyddedu yn 2021, credwn fod digon o amser wedi bod o fewn y Chweched Senedd i wneud hynny.

81. O ystyried bod cyflwyno cyfundrefn drwyddedu ar gyfer llety hunanarlwyo yng Nghymru wedi bod yn fwiad gan y Llywodraeth hon yng Nghymru ers 2021, mae'n syndod nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno'r Bil hwn cyn mis Tachwedd 2025.

82. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod y Bil wedi'i gyflwyno mor hwyr yn nhymor y Senedd o ganlyniad i ddatblygiad polisi arbennig o drylwyr. I'r gwrthwyneb, credwn fod y gwrthwyneb yn wir. Roedd yn arbennig o bryderus clywed adroddiadau rhai rhanddeiliaid y dylent 'fynd ag ef i'r Senedd', a bod penderfyniadau polisi wedi'u gwneud oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn rhy gymhleth gwneud hynny o fewn yr amserlenni a oedd ar gael. Felly, credwn ei bod yn debygol bod hyn wedi dylanwadu ar y gwaith o ddrafftio'r Bil a'r graddau y mae'r Bil yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

83. Ni waeth pam na allai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil yn gynharach, mae cyflwyno'r Bil hwn yn hwyr wedi arwain at fyrhau cyfnod craffu'r Senedd yn sylweddol. Fel y mae Cadeirydd Pwyllgor yr Economi a gwahanol randdeiliaid wedi'i amlygu, nid yw'n bosibl i bwyllgorau'r Senedd gynnal gwaith craffu manwl o ansawdd uchel ar y Bil o fewn cyfnod craffu Cyfnod 1 o saith wythnos.

84. Mewn llythyr diweddar at y Llywydd, fe wnaethom fynegi pryder ynghylch yr amser byrrach sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar Filiau Blwyddyn 5. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen rhywfaint o hyblygrwydd mewn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad y gall amserlenni byrrach ar gyfer gwaith craffu arwain at ddeddfwriaeth nad yw wedi'i phrofi'n llawn gan ddeddfwyr a rhanddeiliaid ac, o ganlyniad, efallai na fydd yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd neu'n gwbl effeithiol i ddinasyddion Cymru. Rydym yn ailadrodd ein barn hirsefydlog y dylai pwyllgorau gael o leiaf 12 wythnos fusnes ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar Filiau.⁸²

85. Nid ydym yn credu bod unrhyw amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i'r Bil hwn a fyddai'n cyfiawnhau cyfnod craffu byrrach. Mae'r pwyntiau egwyddorol a wnawn yn y llythyr hwnnw'n berthnasol mewn perthynas â'r Bil hwn, ac yn wir fe'u dangosir ganddo.

Casgliad 5. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddadl argyhoeddiadol dros gyfnod byrrach ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil.

Casgliad 6. Mae cyfnod craffu byrrach Llywodraeth Cymru wedi effeithio'n negyddol ar ddyfnder a natur drylwyr y gwaith craffu ar y Bil. O ganlyniad, mae risg y bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar ansawdd y ddeddfwriaeth ei hun, a'i gallu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

⁸² Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 14 Tachwedd 2025

Gweithredu

86. Nid yw'n glir pam nad yw'r corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r gyfundrefn drwyddedu wedi'i nodi ar wyneb y Bil, yn unol â'r dull a gymerwyd yn y Ddeddf VARL. Fodd bynnag, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi nodi mai Awdurdod Cyllid Cymru yw'r corff a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r gyfundrefn drwyddedu a nodir yn y Bil, ac mae rhai rhanddeiliaid wedi croesawu hyn.

87. Mae'r Memorandwm yn nodi'n glir y disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o fewn pum mlynedd i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Fodd bynnag, efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dewis anrhydeddu'r ymrwymiad hwn.

88. Yn sgil y pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch datblygiad brysiog y Bil ac amserlen graffu fyrrach y Senedd, credwn y dylid nodi dyletswydd i werthuso gweithrediad y Bil hwn ar ei wyneb.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth.

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

89. Y pwerau gwneud rheoliadau ehangaf yn y Bil yw'r rhai sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i estyn cwmpas y cynllun i fathau eraill o lety ymwelwyr yng Nghymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Mae'r rhain yn bwerau eang ac arwyddocaol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi hefyd yn nodi bod pum pŵer Harri'r Wythfed arall (yn bennaf) sydd wedi'u gwasgaru ar draws y Bil yn dod o fewn yr un diben polisi; mae'r rhain, hefyd, yn eang ac yn arwyddocaol.

90. Rydym yn cydnabod barn yr Ysgrifennydd Cabinet bod y Bil yn atal unrhyw Weinidog rhag estyn cwmpas y Bil heb gymeradwyaeth y Senedd. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau craffu sy'n gysylltiedig ag unrhyw reoliadau yn sylweddol llai cadarn na'r rhai sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth sylfaenol, yn rhannol oherwydd nad ydynt yn caniatáu i Aelodau o'r Senedd gynnig gwelliannau a herio neu geisio gwelliannau i ddarpariaethau unigol. Credwn fod ehangu cwmpas y Bil hwn, a fydd yn gofyn am nifer o welliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol, yn fater digon arwyddocaol i warantu gwaith craffu llawn gan y Senedd drwy'r broses craffu ar y Bil.

91. Yn ogystal â'r pwerau sylweddol i estyn cwmpas y gyfundrefn drwyddedu, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu troseddau drwy is-ddeddfwriaeth, rhan o duedd ddiweddar yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru y mae gennym bryderon sylweddol yn ei chylch. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer pwerau Harri'r Wythfed sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd. Credwn fod y dull gweithredu ym mhob achos yn amhriodol.

92. Rydym yn trafod yr holl bwerau hyn yn fanylach yn y bennod nesaf.

93. Pan ystyrir y rhain ar y cyd, rydym yn dod i'r casgliad bod y Bil hwn yn cynrychioli trosglwyddiad pŵer sylweddol i Weinidogion Cymru sy'n golygu rhwystr sylweddol i waith craffu gan y Senedd.

Casgliad 7. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer dirprwyo pwerau yn amhriodol i Weinidogion Cymru ar draul eglurder a manylder ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu priodoldeb y pwerau dirprwyedig yn y Bil, ac ystyried a ddylid dileu neu gyfyngu ar unrhyw rai ohonynt.

94. Yn olaf, cawsom ein synnu a'n siomi o glywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ei fod, mewn rhai achosion, wedi mynd ati i ddrafftio'r Bil mewn ffordd a oedd yn blaenoriaethu barn y diwydiant twristiaeth dros farn y Senedd. Mae'r Senedd yn cynrychioli pobl Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â buddiannau busnes. Mae'r Pwyllgor hwn yn ystyried y buddiannau hynny cyn dod i farn. Yn y pen draw, mae deddfwriaeth sydd wedi bod yn destun gwaith craffu manwl gan yr Aelodau etholedig mewn ffordd sy'n ystyried barn busnesau yr un mor fuddiol i'r diwydiant twristiaeth ag y mae i'r cyhoedd ehangach. Mae hyn wedi cael ei amlygu gan nifer o randdeiliaid twristiaeth yn ystod y broses o graffu ar y Bil hwn.

4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil

Rhan 2 (Datblygu Twristiaeth)

95. Mae Rhan 2 o'r Bil yn ailddatgan nifer o bwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi ar hyn o bryd yn *Neddf Datblygu Twristiaeth 1969*, fel y'i haddaswyd gan *Ddeddf Twristiaeth (Hybu Dramor) (Cymru) 1992*.⁸³

96. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam ei fod wedi mabwysiadu'r dull hwnnw, a pha newidiadau yr oedd yn eu cynnig i'r pwerau hynny. Dywedodd wrthym fod y pwerau ailddatgan yn anelu at wella hygyrchedd deddfwriaeth twristiaeth, gan ddod â phopeth i un lle. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y Bil yn cynyddu'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o ran rhoi sylw i bwysigrwydd lliniaru effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol twristiaeth a chynnal a hyrwyddo'r Cymraeg, a'r pŵer i gyhoeddi cod ymarfer yn y Bil.⁸⁴

Rhan 3 (Rheoleiddio Llety Ymwelwyr)

Pennod 1 (Cysyniadau Allweddol)

Adran 5 – Ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig

97. Mae adran 5 yn cyflwyno ac yn diffinio'r term "llety ymwelwyr rheoleiddiedig" fel llety hunanarlwyo sy'n hunangynhwysol ac sydd mewn adeilad, cartref symudol, llestr neu gerbyd arall. Mae rhai mathau o lety, fel gwesty, hostel ieuenctid, maes gwersylla neu safle carafannau, wedi'u heithrio o'r diffiniad. Mae gan lety ymwelwyr yr un ystyr ag yn adran 2(1) o'r Ddeddf VARL.

98. Mae adran 5(1)(b) yn cynnwys pŵer Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru estyn y cynllun trwyddedu i lety arall, yn ddarostyngedig i weithdrefn y Senedd. Yn ôl y Memorandwm:

“Effaith yr adran hon yw rhoi eglurder ynghylch pa fathau penodol o lety ymwelwyr sydd o fewn cwrpas y cynllun rheoleiddio sy'n cael ei gyflwyno gan y Bil, a pha rai sydd y tu

⁸³ Memorandwm Esboniadol, tudalen 91

⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [85] i [87]

allan iddo. Darperir pŵer i wneud rheoliadau hefyd er mwyn caniatáu i fathau pellach o lety gael eu hychwanegu yn y dyfodol.”⁸⁵

99. Yn ystod ei sesiwn tystiolaeth lafar gyda Phwyllgor yr Economi, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“... the Bill does set out a path through which, through regulations, other sectors—we talked about caravan and camping sites when I was last here with you—further sectors can be added to the licensing regime. The point I was trying to make is that there are particular characteristics of any of those other sectors that you would have had to have worked through with the industry. We’ve had no consultation specifically on doing those things. That would lie to a future Senedd, but the Bill sets up the process by which that can be done.”⁸⁶

100. Mynegodd rhanddeiliaid amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch manteision neu anafanteision estyn y gyfundrefn drwyddedu i wahanol fathau o lety. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (“CLILC”) yn gefnogol i’r pwerau i wneud rheoliadau yn adran 5.⁸⁷ Roedd eraill yn gwrthwynebu (am wahanol resymau) i bwerau i wneud unrhyw estyniad o’r fath gael eu rhoi i Weinidogion Cymru, yn hytrach na nodi’r manylion ar wyneb y Bil.⁸⁸ Adroddodd Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn rhy gymhleth o fewn yr amserlen i ychwanegu’r sectorau eraill sy’n rhan o’r cofrestru.⁸⁹ Dadleuodd ScoutsCymru:

“However, we are concerned and cautious about the conferment of power via regulations set out within the bill, particularly the ability for Ministers to specify additional types of regulated visitor accommodation as set out in Part 1: Pennod 5(10(b) o’r Memorandwm Esboniadol. While we understand the need for Senedd approval does enable further consideration of

⁸⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

⁸⁶ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [423]

⁸⁷ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

⁸⁸ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 Awaze (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 15 Sykes Holiday Cottages (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 16 Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU (Saesneg yn unig); Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 06 ScoutsCymru (Saesneg yn unig)

⁸⁹ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [26]

the implications, the lack of reference to a consultation with stakeholders who may be affected, could result in unintended, negative consequences (...) Therefore, we call for a requirement for consultation before such measures are introduced due to the impactful nature their introduction may have on organisations such as ScoutsCymru.”⁹⁰

101. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol, a sut mae'n rhagweld y bydd llywodraethau'r dyfodol yn ei ddefnyddio. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil wedi'i gyfyngu i letyau tymor byr hunangynhwysol, oherwydd bod gan fathau eraill o letyau twristiaeth yng Nghymru rai agweddau ar gyfundrefn drwyddedu ar waith eisoes. Ychwanegodd:

“So, it's in the Senedd's hands, not in Ministers' hands, as to whether or not any further sectors are brought within the ambit of a licensing regime in Wales. What the Bill does is it opens up a pathway to that, should Ministers wish to bring proposals in front of the Senedd and the Senedd decide to approve that ... It will be for a future Government to decide whether or not it would be worth while to extend the regime set out in this Bill to those forms of accommodation, but Ministers cannot do it on their own initiative. They can only do it with the express approval of the Senedd.”⁹¹

102. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi bod pwerau gwneud rheoliadau eraill yn y Bil ochr yn ochr â'r rhai yn adran 5 (sef adrannau 6(2), 17(1), 19(3), 39(3) a 40(4)) hefyd yn dod o dan y “bwriad polisi cyffredin” i “alluogi Gweinidogion Cymru i ehangu cwrdd y cynllun i unrhyw fath o lety ymwelwyr, a phob mathau o lety ymwelwyr”.⁹² Ac eithrio adran 39(3), mae'r holl bwerau hyn yn rhoi pwerau Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru (rydym yn eu trafod yn fanylach drwy gydol y bennod hon). Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn dadlau:

“Y cyfiawnhad dros bwerau Harri VIII o fewn y darpariaethau hyn, felly, yw sicrhau y gellir ystyried y ddeddfwriaeth yn gyfannol o dan yr amgylchiadau hyn. Mae'r pwerau yn galluogi rhannau allweddol o'r cynllun trwyddedu i gael eu diweddaru

⁹⁰ Pwyllgor yr Economi, Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 06 - ScoutsCymru (Saesneg yn unig)

⁹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [35] a [36]

⁹² Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), 5 Tachwedd 2025

neu eu haddasu i adlewyrchu unrhyw estyniad i gwmpas y cynllun, gan gynnwys y gofynion ffitrwydd, yr amodau trwyddedu a allai fod yn gymwys, a'r gofynion cymeradwyo ar gyfer ceisiadau trwyddedu yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'r amodau.”⁹³

Adran 6 – Ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr

103. Mae adran 6(2) yn cynnwys pŵer Harri'r Wythfed i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch mangreoedd lle mae llety rheoleiddiedig i ymwelwyr yn cael eu cynnig neu yn cael eu darparu fel rhai addas ar gyfer llety i ymwelwyr. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

104. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn egluro bod y pŵer hwn yn dod o fewn y bwriad polisi cyffredinol o alluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i estyn cwmpas y cynllun i fathau eraill o lety ymwelwyr yng Nghymru drwy reoliadau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.⁹⁴ Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi hefyd yn nodi mai diben y pŵer yw:

“... osgoi gwahaniaethau â'r safonau rheoleiddio ehangach, oni fydd y Senedd o'r farn eu bod yn briodol, a sicrhau y gall y gofynion a'r safonau barhau'n berthnasol ac yn gyfredol yn yr hirdymor, drwy ddileu neu ddiweddarau gofynion anghyfredol, neu ychwanegu gofynion newydd i gefnogi gwelliant parhaus o ran y safonau ym mhob rhan o'r sector.”⁹⁵

Pennod 2 (Trwyddedu)

Adran 14 – Trwyddedau llety ymwelwyr

105. Mae adran 14(2) o'r Bil yn nodi y gall dwy drwydded neu fwy fod mewn grym ar yr un pryd mewn perthynas â'r un safle. Gwnaethom ofyn ofyn am eglurder gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch pryd a pham y gallai sefyllfa o'r fath ddigwydd. Eglurodd eu bod yn amgylchiadau prin iawn, fodd bynnag:

“... imagine a premise that is let the year round. Over the winter months, it is let not on a short-term basis, but for a six-month period. In the summer period, it is let on a short-term basis. A

⁹³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

⁹⁴ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

⁹⁵ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), 5 Tachwedd 2025

licence will be needed for the short-term lets in the summer months. Now imagine that the person who has the six-month occupation decides to sublet part of the accommodation on a short-term basis. They will now need a licence for that activity as well. Licences are issued for a 12-month period, so there will be two different licences and they will both be in operation concurrently, because of the way the system works.”⁹⁶

Aadrannau 17 a 19 - Amodau trwydded: amodau pellach a cheisiadau am drwydded: gofynion cymeradwyo

106. Mae adran 17(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi amodau pellach mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Mae is-adran (4) yn darparu y gall rheoliadau o'r fath ddiwygio darpariaethau'r Bil at y diben hwnnw. Cyn gwneud y rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un sy'n briodol yn eu barn hwy.

107. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi bod dau ddiben i'r pŵer i wneud rheoliadau: yn gyntaf, sicrhau bod amodau trwydded yn parhau i fod yn “berthnasol ac yn gyfredol”, ac yn ail, ychwanegu amodau trwydded pellach ac amodau newydd neu bresennol i'w cymhwyso lle mae mathau ychwanegol o lety neu fangre i ymwelwyr yn cael eu dwyn o fewn cwmpas y cynllun.⁹⁷

108. Mae adran 19(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi gofynion cymeradwyo mewn cysylltiad ag unrhyw amod pellach sydd i fod yn gymwys i drwydded llety ymwelwyr drwy reoliadau o dan adran 17, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Gall y rheoliadau ddiwygio unrhyw ddarpariaethau ar wyneb y Bil. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn dweud:

“Bwriad y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw diweddarau'r broses gwneud cais a'r gofynion cymeradwyo i adlewyrchu unrhyw amodau newydd a ychwanegwyd o ganlyniad i roi'r pŵer ar waith o dan adran 17, i sicrhau bod gofynion cymeradwyo priodol ar waith, er enghraifft, pe byddai mathau ychwanegol o letyau yn cael eu hychwanegu at gwmpas y cynllun.”⁹⁸

⁹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [97]

⁹⁷ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), 5 Tachwedd 2025

⁹⁸ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), 5 Tachwedd 2025

Adran 24 - Torri amodau trwydded: hysbysiadau adfer

109. Mae adran 24 yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu proses hysbysiad adfer ar gyfer torri amodau trwydded, lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod amod trwydded yn debygol o barhau i gael ei dorri neu o gael ei dorri eto.

110. Mewn ymateb i'n cwestiynau ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru wedi rhedeg allan o amser i roi'r broses hysbysiad adfer ar wyneb y Bil, honnodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn ddewis bwriadol gadael y broses honno i reoliadau. Ychwanegodd mai'r dull a gymerwyd yn y Bil oedd y ffordd orau o wneud hyn – rhoi'r system ar wyneb y Bil a gweithio drwy'r manylion hynny gyda'r bobl hynny sy'n gweithio yn y maes, a'u dwyn gerbron y Senedd drwy reoliadau.⁹⁹

Adran 25 - Trwydded yn dod i ben ac adnewyddu trwydded

111. Mae adran 25 yn nodi y bydd trwyddedau'n dod i ben ar ôl blwyddyn, neu gyfnod hirach os pennir hynny yn y drwydded. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag adnewyddu trwyddedau llety ymwelwyr. Gall rheoliadau o dan adran 25 wneud darpariaeth ar gyfer troseddau, apeliadau, a gall ddiwygio darpariaethau'r Bil at y diben hwnnw. Mae'r Gymdeithas Llety Tymor Byr wedi mynegi pryder ynghylch gadael y broses adnewyddu i reoliadau, o bosibl o dan Weinidogion yn y dyfodol.¹⁰⁰

112. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam y cymerwyd y dull hwn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei fod am osgoi sefyllfa lle byddai rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr ailgyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru yn flynyddol os oedd y wybodaeth a gedwir ar ffeil yn ddilys o hyd. Aeth ymlaen i ddweud:

“One of the things the industry told us they were anxious about is that you might suddenly not have a licence. If the renewal process meant your licence wasn't renewed so that your licence was continuous, would that mean you'd suddenly have to stop taking bookings, because now there might be a week or two weeks when the licence hadn't been renewed, because they had so much stuff there to provide to you again to do it?”

⁹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [47]

¹⁰⁰ Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [451]

113. Dadleuodd mai rheoliadau yw'r ffordd orau o gadw'r broses adnewyddu mor syml â phosibl i'r mwyafrif helaeth o ddarparwyr.¹⁰¹

114. Mewn gohebiaeth ddilynol, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Mae gosod y prosesau a'r gweithdrefnau hyn mewn rheoliadau hefyd yn caniatáu i'r broses adnewyddu esblygu dros amser, gan ganiatáu dull mwy hyblyg ac ymatebol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, yn ogystal â manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg neu wersi a ddysgwyd dros amser, gan symleiddio'r broses a lleihau'r gofynion ar ddarparwyr, lle bynnag y bo modd."*¹⁰²

Adrannau 26 a 27 - Diwygio trwydded a thrwyddedau dros dro

115. Mae adrannau 26 a 27 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â diwygio trwyddedau a chyhoeddi trwyddedau dros dro. Gall rheoliadau a wneir o dan adran 27(2) ddiwygio darpariaethau ar wyneb y Bil, ac maent yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd. Mae'r Memorandwm yn nodi mai bwriad y darpariaethau sy'n ymwneud â thrwyddedau dros dro yw:

*"... caniatáu ystyried achosion pan na fo llety yn gallu bodloni'r gofynion cymeradwyo (er enghraifft tra ei fod yn cael ei adeiladu neu ei adnewyddu) ond bo'r DLIY yn dal i fod eisiau hysbysebu (neu 'gynnig ei ddarparu'), fel y gellir caniatáu iddo wneud hynny, yn amodol ar fodloni'r amodau cymeradwyo cyn derbyn ymwelwyr."*¹⁰³

116. Gwnaethom holi'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad oedd mwy o fanylion am drwyddedau dros dro wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Ymatebodd fod trwyddedau dros dro yn rhan fach iawn o'r gyfundrefn, ond yn rhan bwysig o safbwynt darparwyr llety. Dadleuodd y gallai amgylchiadau a senarios annisgwyl gyfiawnhau newidiadau i'r broses, a fyddai angen hyblygrwydd i'w gweithredu:

"And I see amendments as being much more likely to be the result of applications from the industry, and they are on those rare occasions when enforcement action will require a change to the licence to enable things to be, well, brought in line. Those are—. Because you are dealing with that level of complexity,

¹⁰¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [53] a [54]

¹⁰² Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

¹⁰³ Memorandwm Esboniadol, tudalen 104

*and because it is impossible to predict all the circumstances in which these practical provisions will be necessary, that's why I think it is better to have these things in the regulation part of the Bill rather than on the face of the Bill."*¹⁰⁴

Adran 29 - Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol

117. Mae adran 29(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad (hysbysiad gwybodaeth) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau i Weinidogion Cymru. Nodir yn y Memorandwm:

*"Efallai y bydd amgylchiadau pryd y bydd ar Weinidogion Cymru angen i wybodaeth benodol gael ei darparu gan drydydd partïon er mwyn i'r cynllun rheoleiddio a nodir yn y Bil hwn weithredu'n effeithiol. Er enghraifft, os amheuir bod tystiolaeth a ddarperir mewn cais am drwydded yn anghywir neu'n dwyllodrus, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno ceisio rhagor o wybodaeth gan y ceisydd ynghylch tarddiad tystysgrif..."*¹⁰⁵

118. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y pwerau yn adran 29 yn ymwneud â Rhannau 3 a 4 o'r Bil, nid â'r darpariaethau yn Rhan 2 sy'n ymwneud â hyrwyddo swyddogaethau twristiaeth Gweinidogion Cymru.¹⁰⁶

119. Mae adran 29(5) yn gwneud darpariaeth ynghylch derbynioldeb gwybodaeth y mae person yn ei chyflwyno mewn ymateb i hysbysiad gwybodaeth a gyhoeddir o dan adran 29(1). Mae'n darparu, yn amodol ar eithriadau penodedig, nad yw gwybodaeth o'r fath yn dderbyniol mewn achosion troseddol. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro'r rhesymeg dros gynnwys adran 29(5) yn y Bil. Eglurodd fod y darpariaethau'n adlewyrchu:

*"...article 6 of human rights legislation in relation to the right to a fair trial. What these provisions do is to ensure that someone subject to an information notice is protected from self-incrimination. That is a standard protection in criminal proceedings and that's why it's here in this Bill too."*¹⁰⁷

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [57] a [58]

¹⁰⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalen 105

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [60]

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [102]

Adran 29 - Pwerau i rannu gwybodaeth

120. Mae adran 39 yn galluogi Gweinidogion Cymru i rannu gwybodaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, neu ofyn am wybodaeth ganddynt (neu i'r gwrthwyneb). Nodir yn y Memorandwm:

“Er enghraifft, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno ceisio cyngor gan awdurdod tân ac achub ynghylch materion diogelwch tân, neu efallai y bydd awdurdod lleol yn dymuno rhoi gwybod iddynt ei fod wedi cymryd camau gweithredu mewn perthynas â chwynion a wnaed am fangre sydd wedi ei thrwyddedu fel llety ymwelwyr.”¹⁰⁸

121. Mae adran 39(4) o'r Bil yn darparu nad yw datgelu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru, a'r rhestr o gyrff yn adran 39(3), yn torri rhwymedigaethau cyfrinachedd nac unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y'i gosodir). Gwnaethom holi'r Ysgrifennydd Cabinet pa fathau o gyfyngiadau fyddai'r ddarpariaeth hon yn eu diystyru a pham mae ei hangen. Ymatebodd, gan ddweud:

“Mae is-adran 39(4) wedi'i chynnwys i'w gwneud yn glir na all darparwr llety ymwelwyr gyfyngu ar y gallu i rannu gwybodaeth pan fo hyn yn angenrheidiol ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng rheoleiddwyr perthnasol, a phan fo sail gyfreithlon dros wneud hynny fel arall.”

122. Mae ei lythyr yn ychwanegu bod angen darllen y darpariaethau o dan adran 39 ochr yn ochr ag adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018, fel y nodir o dan adran 39(5).¹⁰⁹

Adran 40 - Darpariaeth arbennig mewn cysylltiad â safleoedd gwersylla a safleoedd carafannau

123. Os bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn estyn y gyfundrefn drwyddedu yn y Bil i feysydd gwersylla a charafannau gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 5(1)(b) (gweler paragraff 98), mae adran 40 yn caniatáu i amodau gael eu cysylltu â thrwyddedau o'r math sydd eisoes yn berthnasol i'r safleoedd hynny o dan *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936* a *Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960*, yn amodol ar gytundeb gan yr awdurdod lleol perthnasol.

¹⁰⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 108

¹⁰⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

124. Mae adran 40(4) yn rhoi pŵer Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i addasu unrhyw ddarpariaeth ym Mhennod 2 o Ran 3 at unrhyw ddibenion sy'n gysylltiedig â'r amodau a bennir yn yr adran. Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam roedd y pwerau'n angenrheidiol, a pham y dewiswyd y weithdrefn annilysu. Ymatebodd, gan ddweud:

*"If a future Senedd were to decide to bring caravan and camping sites under the regime created in this Bill, then these powers exist to make sure that there would be a smooth transition between what is there already and what would be needed in the future, because the type of licensing regime that is in place for campsites and caravan sites is not the same necessarily as the way that the Bill sets it out... were a future Senedd to bring caravan sites and campsites under a licensing regime, that would be the big decision; the big decision would be to bring them within the new regime. That would require consultation, that would require a vote on the floor of the Senedd. And the power in section 40(4) is only exercisable once the Senedd has already made that decision. And what this power is just a practical way of giving effect to the decision that the Senedd would have made."*¹¹⁰

Rhan 4 (Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr)

125. O dan adran 46, rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr gynnwys rhif cofrestru mewn deunydd marchnata neu hysbysebu, ynghyd â gwybodaeth sy'n nodi sut i ddod o hyd i wybodaeth am y fangre yn y cyfeiriadur llety ymwelwyr mewn modd a ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru.

126. Gwnaethom holi'r Ysgrifennydd Cabinet sut y bydd y gofynion hynny'n cael eu pennu'n ymarferol, a pham y penderfynodd beidio â phennu gofynion mewn rheoliadau. Yn ei lythyr, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi:

"Mae pennu'n union sut y caiff hyn ei ddarparu mewn canllawiau yn hytrach na rheoliadau yn rhoi'r lle inni weithio yn fanwl gyda phlatfformau ac asiantaethau archebu i sicrhau bod yr wybodaeth ofynnol yn cael ei chyfleu mor glir ac effeithiol â phosibl i'r ymwelydd... Mae hwn yn fater gweithredol

¹¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [71] a [72]

manwl, nad oedd, yn dod i'r casgliad, yn cael ei lywio orau trwy rheoliadau.”¹¹¹

127. Mae adran 47 yn creu trosedd am fethu â chydymffurfio â'r gofynion ar gyfer hysbysebu llety ymwelwyr yn adran 46. Gwnaethom geisio eglurder gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch a allai asiant gosod neu lwyfan archebu ar-lein gael ei throreddoli am beidio â chydymffurfio ag adran 46, neu ddarparwr llety ymwelwyr yn unig. Cadarnhaodd y byddai'r drosedd yn berthnasol i unrhyw lwyfan sy'n hysbysebu neu'n marchnata llety ymwelwyr fel arall, a dadleuodd “nid wyf yn credu ei bod yn afresymol disgwyl i blatfformau archebu gymryd cyfrifoldeb am gyhoeddi gwybodaeth gywir”. Mae'r llythyr yn egluro y bydd y ddarpariaeth yn berthnasol i bob llety ymwelwyr cofrestredig, nid dim ond llety ymwelwyr hunangynhwysol hunanarlwyo.¹¹²

128. Mae adran 49 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio darpariaeth a wneir gan neu o dan y Bil mewn perthynas ag achosion lle mae personau'n cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cyfiawnhau'r pŵer hwn fel un sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru “ymateb i fathau newydd o drefniadau busnes, wrth i faterion ymarferol godi wrth roi'r Bil neu'r Ddeddf VARL ar waith ar gyfer partneriaethau a chyrff anghorfforedig yn ystod y broses gymhwyso neu dros amser, ac i atal unrhyw fylchau rhag datblygu a allai danseilio effeithlonrwydd y cynllun trwyddedu.”¹¹³

129. Mae adran 51 yn darparu, pan fo trosedd o dan y Bil yn cael ei gyflawni gan gorff corfforaethol, partneriaeth neu gorff anghorfforedig, y bydd unigolion sy'n dal swyddi cyfrifol (neu sy'n honni eu bod yn gwneud hynny) o fewn y corff neu'r bartneriaeth berthnasol yn atebol yn droseddol am drosedd, yn ddarostyngedig i rai amodau.¹¹⁴

130. Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch estyn atebolrwydd troseddol i unigolion ar lwyfannau archebu. Pwysleisiodd Booking.com ac Airbnb na allant benderfynu a yw rhif cofrestru yn ddilys, ac felly na ddylid rhoi atebolrwydd troseddol ar uwch-swyddogion llwyfannau archebu.¹¹⁵ Dadleuodd Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru hefyd y dylai perchnogion fod yn gyfrifol am

¹¹¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

¹¹² Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

¹¹³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Tachwedd 2025

¹¹⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 104

¹¹⁵ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [106] i [124]

ddarparu'r wybodaeth gywir i'r llwyfan.¹¹⁶ Dadleuodd y Gymdeithas Llety Tymor Byr:

*"... the way that section 46, I believe you're thinking of there, in the Bill is worded is currently vague, so that any booking platform or site that takes bookings would potentially be criminally liable for the accuracy of a registration number, even though they don't have the ability to check that number. Speaking on behalf of some of our larger platform members, including my employer, we list thousands of properties across Wales, and it would not be practical to manually check the registration number of each one."*¹¹⁷

131. Aeth ymlaen i herio barn Awdurdod Cyllid Cymru (a fynegwyd i Bwyllgor yr Economi ar 5 Tachwedd¹¹⁸) y byddai'n hawdd iawn i lwyfannau archebu wirio rhifau cofrestru.¹¹⁹

132. Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, honnodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai dim ond ar gyfer troseddwyd cyson a bwriadol y byddai cosbau troseddol yn cael eu defnyddio:

*"I think online platform providers do have a responsibility to make sure that the information they provide to potential visitors is accurate. But if it's not accurate for a reason that can be quickly put right, then that's what we would hope to happen. The Bill is designed to be helpful to people, to allow them to do the right thing as easily as possible. Nobody should believe that they are in danger of criminal prosecution for making a mistake. Criminal penalties are there for people who persistently and deliberately decline to meet their legal obligations."*¹²⁰

133. Ychwanegodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cabinet fod unrhyw drosedd yn ddarostyngedig i amddiffyniad esgus rhesymol, fel y nodir yn adran 47(1). Nododd:

¹¹⁶ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [136]

¹¹⁷ Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [486]

¹¹⁸ Pwyllgor yr Economi, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [228]

¹¹⁹ Pwyllgor yr Economi, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [496]

¹²⁰ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [489]

“So, if what they have done is reasonable insofar as ensuring that the right information is available, they will not have committed an offence, even if they haven’t done what they were supposed to have done under section 46...”¹²¹

Rhan 5 (Amrywiol a Chyffredinol)

134. Mae adran 52 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at, diddymu, dirymu, neu fel arall ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Bil pan fydd darparwr llety ymwelwyr yn marw, yn dod yn analluog, neu’n peidio â bodoli fel endid cyfreithiol. Mae adran 53 yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer parhad y driniaeth o dan y ddeddfwriaeth hon o fusnes sy’n cael ei drosglwyddo fel busnes gweithredol. Mae’r pwerau i wneud rheoliadau yn adran 52 a 53 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo’r Senedd.

135. Fe wnaethom holi pam mae’r Bil yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru greu troseddau mewn rheoliadau gan ddefnyddio pwerau Harri’r Wythfed. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod adrannau 52 a 53 yn ymdrin ag amgylchiadau ‘penodol’ ac ‘anghyffredin’ iawn, sydd hefyd yn cael eu gwahaniaethu yn y Ddeddf VARL. Aeth ymlaen i ddweud:

“Where there has been a death of a visitor accommodation provider for example, what happens then? And while they are rare, you do need to make sure that those things are done in a proper way, that they’re not vulnerable to improper actions. And that’s why the Bill provides for a regime of criminal offences in relation to those very particular sets of circumstances, and that’s why the Bill allows for the penalty regime to be designed to meet those very unusual circumstances. And that’s why they don’t appear on the face of the Bill, because you’ll need to design them to make sure you’ve captured all the issues that are at stake in those.”¹²²

136. Mae adran 55 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar y cynllun trwyddedu a darparu gwybodaeth i’r cyhoedd. Nid oes gweithdrefn y Senedd ynghlwm wrth y pŵer arfaethedig hwn. Gwnaethom holi’r Ysgrifennydd Cabinet a fyddai’n briodol i’r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau statudol heb waith craffu gan y Senedd yn gyntaf. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd

¹²¹ Pwyllgor yr Economi, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [493]

¹²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [63]

Cabinet nad yw'r canllawiau statudol yn newid unrhyw beth y mae'r Senedd yn ei benderfynu, dim ond helpu pobl yn y maes i ddeall eu cyfrifoldebau newydd a sut y bydd y system yn gweithio. Daeth i'r casgliad nad yw'n credu bod achos cryf i'r Senedd geisio cadw llygad ar y canllawiau hefyd, oherwydd bod y canllawiau'n seiliedig yn uniongyrchol ar yr hyn sydd wedi'i benderfynu gan y Senedd.¹²³

Ein barn ni

Rhan 3 (Rheoleiddio Llety Ymwelwyr)

137. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau a nodir yn adran 5(1)(b) yn galluogi Llywodraeth Cymru i estyn y gyfundrefn drwyddedu i fathau o letyau ymwelwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn dod o dan gwmpas y Bil, megis gwestai, llety gwely a brecwast, a llety a ddarperir ar ffurf ystafelloedd sbâr a safleoedd gwersylla.

138. Mae'r ymateb cadarn gan randdeiliaid i ymgynghoriad Cyfnod 1 ar y Bil wedi dangos y bydd estyn y gyfundrefn drwyddedu i wahanol fathau o letyau twristiaeth yn cael goblygiadau sylweddol i'r sector. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet ei hun wedi cydnabod bod estyn cwmpas y gyfundrefn yn gofyn am ystyriaeth ychwanegol ac nad oedd yn bosibl gwneud hynny mewn pryd i'w gynnwys yn y Bil hwn.

139. Felly, nid ydym wedi ein darbwylo gan ddadleuon yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn briodol galluogi gwneud newid mor sylweddol i gwmpas y Bil hwn drwy reoliadau. Nid yw'r broses graffu sy'n gysylltiedig â rheoliadau, hyd yn oed y rhai sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, yn ddigon cadarn ar gyfer newid deddfwriaethol mor sylweddol. Dylid cynnig estyniadau yn y dyfodol i gwmpas y Bil i'r Senedd ar ffurf deddfwriaeth sylfaenol, a byddant yn destun gwaith craffu llawn ar y Bil yn unol â hynny.

140. Gobeithiwn y bydd y penderfyniad i alluogi estyn cwmpas y Bil drwy reoliadau yn cael ei ailystyried fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'n Argymhelliad 4. Fodd bynnag, os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r pwerau hynny, dylent fod yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefn gymeradwyo.

Argymhelliad 5. Os yw Llywodraeth Cymru o blaid cadw'r pwerau yn y Bil sy'n galluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i estyn cwmpas y Bil drwy reoliadau er gwaethaf argymhelliad 4, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i wneud

¹²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, 10 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [75]

y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 5(1)(b) yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefn gymeradwyo sy'n cynnwys gofyniad:

- i. i ymgynghori am gyfnod gofynnol, gan gynnwys gyda phwyllgorau'r Senedd;
- ii. i wneud datganiad cyn y gwneir unrhyw reoliadau o'r fath, yn nodi manylion canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw (gan gynnwys meysydd y cytunir ac yr anghytunir arnynt gyda rhanddeiliaid) ac, yn unol â hynny, sut y mae'r rheoliadau wedi rhoi ystyriaeth i ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

141. Mae adran 25 yn caniatáu creu troseddau newydd drwy reoliadau. Nid ydym yn teimlo bod hyn yn briodol. Dylai troseddau ymddangos ar wyneb y Bil.

142. Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi wedi nodi'n ddiweddar na ddylid defnyddio deddfwriaeth ddirprwyedig i greu troseddau newydd – mae hyn yn gyffredinol yn annerbyniol yn gyfansoddiadol.¹²⁴ Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau mewn perthynas â'r Bil hwnnw, mae'r Arglwydd Thomas o Gwmgiedd hefyd yn cyfeirio at y farn gref yn Senedd y DU y dylid gosod troseddau mewn deddfwriaeth sylfaenol.¹²⁵

Casgliad 8. Nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol creu troseddau drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i adran 25 o'r Bil i gynnwys ar ei wyneb y troseddau newydd a fyddai'n gymwys mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr.

143. Nodwn sicrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 27(2) yn berthnasol i achosion penodol, megis lle mae DLİY yn dymuno gwneud cais am drwydded dros dro i'w alluogi i hysbysebu llety wrth wneud gwaith adnewyddu. Fodd bynnag, ni waeth pa mor gul yw cwmpas bwriadedig y pwerau, fel mater o egwyddor nid ydym yn credu ei bod yn briodol i reoliadau a all ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

¹²⁴ Pwyllgor Safonau Deddfwriaethol y Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi'r: 2017-2024, 6 Mai 25, rhif 44

¹²⁵ Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB019 Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd (Saesneg yn unig)

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 57(4) o'r Bil i wneud y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 27(2) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

144. Nodwn y dadleuon a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet fod y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 40(4) yn ddibynnol ar y Senedd yn rhoi ei chymeradwyaeth i estyniad o'r gyfundrefn drwyddedu drwy reoliadau a osodir o dan adran 5. Fodd bynnag, fel y daethom i'r casgliad uchod mewn perthynas ag adran 27(2), credwn y dylai rheoliadau a all ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, ni waeth a ydynt yn gysylltiedig o ran polisi â phenderfyniadau a gymerwyd gan y Senedd mewn manau eraill.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 57(4) o'r Bil i wneud y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 40(4) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Rhan 4 (Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr)

145. Fel y mae ymgysylltiad rhai rhanddeiliaid yn tystio iddo, mae'r drosedd arfaethedig yn adran 47 yn destun dadl. Nodwn y safbwyntiau a fynegwyd gan rai nad yw'n realistig disgwyl y bydd llwyfannau archebu mwy yn gallu gwirio rhifau cofrestru ar gyfer pob eiddo y mae'n ei restru. Rydym hefyd yn nodi, gyda rhywfaint o bryder, honiadau rhai rhanddeiliaid bod atebion technegol arfaethedig Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod llwyfannau archebu yn gallu cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn anymarferol.

146. Mae adran 46 yn darparu y bydd y wybodaeth benodol y mae rhaid ei chynnwys ar ddeunydd hysbysebu neu farchnata ar gyfer llety ymwelwyr yn cael ei nodi mewn modd a ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru. Felly, i bob pwrpas, nid yw'r meini prawf lle bernir bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 47 yn destun unrhyw waith craffu gan y Senedd o gwbl, a gellir eu rhagnodi ar ba ffurf bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn ei gweld yn briodol.

147. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi o gwbl gan ddadl yr Ysgrifennydd Cabinet mai materion gweithredol manwl yw'r rhain na ddylid eu llywio drwy reoliadau. Rydym yn ystyried bod y dull hwn yn amhriodol.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 46(1) o'r Bil i ddarparu bod y gofynion hysbysebu a marchnata yn yr adran honno, ac y mae'r drosedd yn adran 47(1) yn ymwneud â hi, i'w gwneud gan reoliadau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Rhan 5 (Amrywiol a Chyffredinol)

148. Mae adrannau 52 a 53 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer troseddau drwy reoliadau. Ni waeth beth fo sicrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet bod y pwerau hyn i'w defnyddio mewn perthynas ag amgylchiadau penodol iawn, nid ydym yn credu ei bod yn briodol creu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth at unrhyw ddiben, ac mewn unrhyw gyd-destun.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adrannau 52 a 53 o'r Bil i gynnwys ar ei wyneb y troseddau newydd a fyddai'n gymwys mewn perthynas ag achosion lle mae Darparwr Llety Ymwelwyr yn marw, yn dod yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, neu fel arall yn peidio â bodoli.